

Ffocws yr adroddiad

Ymchwil i raddfa a phatrwm
aiddigwydd (tynnu plant
o ofal eu rhieni yn olynol
trwy achosion gofal) yng
Nghymru.

Awduron

Dr Bachar Alrouh
Yr Athro Karen Broadhurst
Dr Linda Cusworth

Menywod mewn achosion gofal mynych yng Nghymru: adroddiad meincnodi cyntaf



Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae cydnabyddiaeth gynyddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol o'r hyn a elwir yn gyffredin yn broblem 'achosion mynych o dynnu plant oddi wrth eu rhieni'—sef tynnu plant o ofal eu rhieni yn olynol trwy achosion gofal. Yma, adroddwn am ganfyddiadau o ymchwil a wnaed gan Dîm Partneriaeth Data Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, dan arweiniad yr Athro Karen Broadhurst (Y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd, Prifysgol Caerhirfryn) a'r Athro David Ford (Gwyddor Data Poblogaeth, Prifysgol Abertawe). Gan ddefnyddio cofnodion gweinyddol gwerthfawr llysoedd teulu a gynhyrchwyd yn rheolaidd gan Cafcass Cymru, cyflwynwn yr amcangyfrif cyntaf erioed o raddfa a phatrwm ailddigwydd yng Nghymru.

Mae'r data Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael ym Manc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n rhaid i bob cynnig i ddefnyddio data SAIL gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP). Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: <https://www.saildatabank.com/application-process>

Awduron

- Dr Bachar Alrouh
- Yr Athro Karen Broadhurst
- Dr Linda Cusworth

Ynglŷn ag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat, bydd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu dadansoddiad ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol â chenhadaeth i gynghori ar les cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd Addysg, Lles, a Chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

Mae Sefydliad Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, y Sefydliad.

Hawlfraint © Sefydliad Nuffield 2020

28 Bedford Square, Llundain WC1B 3JS Ff: 020 7631 0566

Elusen gofrestrdig 206601

Cynnwys

Trosolwg	1
1. Cyflwyniad	2
2. Ffynonellau data a dulliau yn gwyno.....	3
3. Canfyddiadau allweddol	5
4. Goblygiadau polisi ac ymarfer	24



Trosolwg

- Rhwng 2011 a 2018, nodom fod 4,345 o famau (fel ymatebwyr) mewn achosion gofal a goruchwylio a.31.
- Ymddangosodd y mamau hyn fel ymatebwyr mewn 5,071 o episodau o achosion gofal a goruchwylio a.31:
 - 4,345 o episodau mynegai;
 - 641 o episodau cyntaf a ailadroddir;
 - 85 o ail episodau a ailadroddir;
 - 19 o drydydd/pedwerydd episodau a ailadroddir.
- Roedd mwyafrif y ceisiadau am orchmynion gofal, gydag ychydig iawn o geisiadau am orchmynion goruchwylio.
- Roedd un o bob pedair mam mewn perygl o ymddangos mewn mwy nag un set o achosion o fewn wyth mlynedd.
- Roedd y rhan fwyaf o episodau a ailadroddwyd yn digwydd o fewn y tair blynedd gyntaf. Os nad oedd mamau wedi dychwelyd i'r llys o fewn tair blynedd, roedd y risg o ddychwelyd yn lleihau'n sylweddol.
- Mae'r bylchau rhwng achosion yn fyr (17 mis, ar gyfartaledd, rhwng dechrau un set o achosion a'r nesaf), gan adael fawr o amser i fenywod ddangos i'r llysoedd fod eu bywydau wedi newid.
- Roedd y risg o achosion yn ailddigwydd yn uwch ar gyfer mamau a oedd yn ieuengach pan gawsant eu plentyn cyntaf.
- Roedd tri-chwarter (74%) o blant mewn achosion mynych o dan flwydd oed, sef cyfran uwch nag yn yr episodau mynegai (42%).
- Fe wnaeth cyfran uwch o fenywod golli eu plant i fabwysiadu mewn achosion gofal mynych nag yn eu hepisod gyntaf.
- Roedd y risg o ddychwelyd i'r llys yn uwch ar gyfer menywod yr oedd eu plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu neu gyda'r teulu estynedig ar ddiwedd eu hachosion gofal cyntaf.
- Ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth o amrywio yn y risg o ailddigwydd yn ôl ardal llysoedd, er y bydd nifer yr achosion sy'n dod gerbron y llysoedd yn amrywio yn sgil gwahaniaethau ym maint y boblogaeth.
- Mae'r canfyddiadau yn cefnogi'n gadarn buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn atal ac mae'n dangos bod rhaglenni fel *Reflect* yn hanfodol.

1. Cyflwyniad

Ers cyhoeddi'r amcangyfrif cyntaf o raddfa a phatrwm ymddangosiadau mynych menywod mewn achosion gofal yn Lloegr (Broadhurst et al., 2015), mae cydnabyddiaeth gynyddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol o'r hyn a elwir yn gyffredin yn broblem 'achosion mynych o dynnu plant oddi wrth eu rhieni'.¹ I gyfran o famau biolegol – a thadau hefyd – gall hanes ailadrodd ei hun ac arwain at achosion olynol o dynnu plant o'u gofal trwy achosion llys teulu. Cychwynnir achosion gofal yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Plant 1989 pan ystyrir bod plant yn wynebu risg o niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol. Er y bydd plant yn cael eu dychwelyd i ofal rhai rhieni ar ddiwedd achosion gofal, i lawer, mae achosion gofal yn arwain at gyfyngu neu ddileu cyfrifoldeb rhieni trwy orchymyn llys. Gall plant gael eu rhoi mewn gofal y tu allan i'r cartref, gofal gan berthynas, neu gyda rhieni sy'n mabwysiadu.

Pan fydd rhieni yn gweld plentyn yn cael ei dynnu o'u gofal, teimlir colled ddifrifol (Broadhurst a Mason, 2020).² Mae'r golled hon yn effeithio hefyd ar y plentyn, y rhwydwaith teulu ehangach a brodyr a chwiorydd. Er na fyddai llawer yn dadlau yn erbyn camau gweithredu amddiffynnol, sy'n cynnwys tynnu plant oddi wrth eu rhieni, mae atal rhieni rhag ymddangos yn fynych mewn achosion gofal yn flaenoriaeth enbyd. Ar sail ymchwil empirig yn Lloegr, mae tystiolaeth gadarn erbyn hyn fod cyfran gweddol fawr o famau biolegol yn dychwelyd i'r llys (yn nodweddiadol, yn dilyn geni babi newydd) ar ôl i blant gael eu tynnu o'u gofal yn flaenorol. Yn 2015, amcangyfrifodd awduron arweiniol yr adroddiad hwn y byddai un o bob pedair menyw yn dychwelyd i'r llys dros gyfnod o saith mlynedd.

Mae canfod y broblem 'achosion mynych o dynnu plant oddi wrth eu rhieni' wedi sbarduno newid mawr yn y modd y mae awdurdodau lleol a'r llysoedd yn meddwl am effaith y system cyflawnder teuluol ar fywyd teulu. Ers 2015, mae lluo o fentrau ataliol newydd wedi dod i'r amlwg gyda'r nod o helpu mamau (a thadau, yn fwy diweddar) i osgoi achosion mynych yn y llys teulu. Am y tro cyntaf, mae menywod yn gallu cael mynediad i gymorth dwys, tra medrus, ar ôl i blentyn gael ei dynnu o'u gofal. Yn Lloegr, mae prosiectau newydd yn cynnwys y rhaglen proffil uchel *Pause a Breaking the Cycle*.^{3 4} Yng Nghymru, mae'r rhaglen *Reflect*, a gafodd ei harloesi gan Barnardos yn 2017 a'i pheilotu gyntaf yng Nghasnewydd, yn cael ei chyflwyno fesul cam erbyn hyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru.⁵

Yn yr adroddiad hwn cyflwynwyd yr amcangyfrif cyntaf erioed o raddfa a phatrwm ailddigwydd yng Nghymru. Gan addasu'r fethodoleg a sefydlwyd gyntaf gan yr awduron arweiniol yn 2015 (Broadhurst et al., 2015), rydym wedi defnyddio cofnodion gweinyddol gwerthfawr llysoedd teulu a gynhyrchwyd yn rheolaidd gan Cafcass Cymru.⁶ Mae'r

¹ Broadhurst, K., Alrouh, B., Yeend, E., Harwin, J., Shaw, M., Pilling, M. a Kershaw S. (2015) Connecting events in time to identify a hidden population: birth mothers and their children in recurrent care proceedings in England. *British Journal of Social Work*, 45(8), tud.2241–260. Gweler <https://doi.org/10.1093/bjsw/bcv130>

² Broadhurst, K. a Mason, C. (2020) Child removal as the gateway to further adversity: birth mother accounts of the immediate and enduring collateral consequences of child removal. *Qualitative Social Work*, 19(1), tud.15- 37

³ I gael manylion, gweler: www.pause.org.uk/

⁴ I gael manylion, gweler: Bellew, R. a Peeran, U. (2017) *After adoption's breaking the cycle programme: an evaluation of the two-year pilot, September 2014 to August 2016*. Llundain: Coram.

⁵ I gael manylion, gweler: Roberts, L., Maxwell, N., Messenger, R. a Palmer, C. (2018) *Evaluation of Reflect in Gwent: final report*. Caerdydd: Cascade. Ar gael yn: <https://sites.cardiff.ac.uk/cascade/our-projects/reflect> 6

ibid.

canfyddiadau a gyflwynwn ynghylch graddfa a phatrwm ailddigwydd yng Nghymru yn hynod debyg i'r rheiny yr adroddwyd amdanynt yn flaenorol gennym ar gyfer Lloegr, ac maent yn cefnogi'n gadarn buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y fenter *Reflect*.

2. Ffynonellau data a dulliau yn gryno

Y brif ffynhonnell data ar gyfer yr astudiaeth hon oedd cofnodion a gynhyrchwyd yn rheolaidd gan Cafcass Cymru, yn ymwneud â'r holl achosion gofal yng Nghymru ers 2011.⁷ Caffaelwyd y cofnodion gan Fanc Data SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) ym Mhrifysgol Abertawe yn Ebrill 2019. Mae Banc Data SAIL yn amgylchedd ymchwil diogel, sy'n rhoi mynediad i ymchwilwyr at gofnodion dienw. Cymeradwywyd cynnig y prosiect gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, a derbyniodd gliriad moesegol gan Brifysgol Caerhirfryn. Fe wnaeth Cafcass Cymru, perchennog y data, gymeradwyo defnydd o'r data ar gyfer y prosiect hwn hefyd.

Roedd ffocws ein dadansoddiad ar achosion gofal a goruchwylio a.31 y gyfraith gyhoeddus a gychwynnwyd rhwng 2011 a 2018 (blynyddoedd calendr).⁸ Cafodd tablau data Cafcass Cymru eu hailstrwythuro i ganolbwyntio ar y fam fel y brif uned fesur. Ailstrwythurwyd cofnodion trwy gysylltu pob mam 'unigryw'⁹ â phob un o'u cheisiadau gofal a goruchwylio a.31, ac yna trwy gysylltu plant, a'u tadau biolegol (lle'r oeddent ar gael), â chofnodion y mamau.

Defnyddiwyd dulliau dadansoddi meintiol i gynhyrchu proffil disgrifiadol o episodau mynegai mamau o achosion gofal ac episodau achosion gofal a ailadroddwyd. Cyfrifwyd mynychder a chanrannau ar gyfer newidynnau categorïaidd, a defnyddiwyd mesurau o duedd ganolog a lleadaeniad (amrediad canolrifol, chwarterl is/uwch ac amrediad rhyngchwarterl) ar gyfer newidynnau parhaus. Defnyddiwyd dadansoddiad goroesol (Kaplan-Meier¹⁰) i amcangyfrif tebygolrwydd ailadrodd ar gyfer mamau biolegol.

Ffigur 1: Episodau a gipiwyd yn ein set ddata (mamau ac achosion a.31)



⁷ Caiff Cafcass Cymru ei gynnwys yn arferol ym mhob achos gofal a.31. Penodir Cynghorydd Llys Teulu, a gyflogir gan Cafcass, gan y llys i gynrychioli'r plentyn.

⁸ Nid yw Cafcass Cymru yn casglu data ar dderbyniadau gwirfoddol i ofal o dan a.76 yng Nghymru. Felly, bydd ein dadansoddiad yn rhoi amcangyfrif rhy isel o gyfanswm nifer y mamau biolegol sy'n dioddef colli plentyn i ofal cyhoeddus.

⁹ Gan unigryw, golygwn fod cofnodion dyblyg wedi'u dileu.

¹⁰ I gael manylion, gweler: Hosmer, D. W., Lemeshow, S. a May, S. (2008) Applied Survival Analysis: Regression Modelling of Time to Event Data, 2il argraffiad, Llundain, Wiley. Collett, D. (2003) Modelling Survival Data in Medical Research, Llundain, Chapman a Hall.

Gellir gweld manylion llawn y broses ailstrwythuro a dad-ddyblygu data, a'r strategaeth ddadansoddi, yn yr atodiad technegol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.¹¹ Defnyddiwyd dull tebyg mewn gwaith a gyhoeddwyd yn flaenorol gan yr awduron arweiniol.¹²

Nodyn ar derminoleg

Episodau cyfreithiol, episodau neu achosion: maent yn cyfeirio at y gweithgarwch sy'n digwydd yn y llys teulu rhwng cychwyn cais (gofal neu oruchwylio) a.31 a'i gau gan Cafcass Cymru.

Episod mynegai: mae'n cyfeirio at y set gyntaf o achosion a gofnodwyd yn ein set ddata ar gyfer unrhyw fam benodol – DS. gallai'r fam fod wedi ymddangos mewn achosion gofal cyn 2011, ond mae cofnodion electronig dibynadwy Cafcass Cymru yn dyddio'n ôl i 2011 yn unig.

Episod cyntaf a ailadroddir ac ail episod a ailadroddir: mae'n cyfeirio at y ddau episod dilynol.

Plentyn: mae'n cyfeirio at destun mewn achosion a.31.

Mam: mae'n cyfeirio at ymatebydd benywaidd mewn ceisiadau a.31, sef y rhiant biolegol i o leiaf un testun yn y cais hwnnw.

Tad: mae'n cyfeirio at ymatebydd gwrywaidd mewn ceisiadau a.31, sef y rhiant biolegol i o leiaf un plentyn yn y cais hwnnw.

Deilliannau cyfreithiol: mae'n cyfeirio at y deiliant ar gyfer plant ar ddiwedd yr achos gofal, yn seiliedig ar y gorchymyn cyfreithiol a wnaed.

- **Wedi'i leoli i'w fabwysiadu:** lle mae plant ar orchymyn Mabwysiadu neu Orchymyn Lleoli ar ddiwedd achos
- **Mewn gofal:** lle mae plant ar Orchymyn Gofal ar ddiwedd achos (gallai hyn olygu bod plentyn yn cael ei leoli mewn gofal maeth, gyda gofawyr sy'n berthynas, neu gartref gyda rhieni)
- **Gydag aelodau'r teulu:** lle mae plant wedi'u lleoli gyda gofawyr sy'n berthynas ar ddiwedd achos ar Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig, Gorchymyn Preswylad neu Orchymyn Trefniadau Plant.
- **Gyda rhieni:** lle mae plant yn aros gyda'u rhieni (neu'n dychwelyd) i ofal eu rhieni (ar Orchymyn Goruchwylio, Gorchymyn Cymorth Teulu neu Orchymyn Dim Gorchymyn, neu lle na wneir gorchymyn) ar ddiwedd achos.

¹¹ Mae'r atodiad technegol yn dangos y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad penodol hwn ar gyfer Cymru a gwahaniaethau rhwng gwaith cynharach y tîm ar gyfer Lloegr,

¹² Broadhurst et al. (2015) *ibid*.

Broadhurst, K., Mason, M.C., Bedston, S., Alrouh, B., Morriss, L., McQuarrie, M.T., Palmer, M., Shaw, M., Harwin, J. a Kershaw, M.S. (2017) Vulnerable birth mothers and recurrent care proceedings. Caerhirfryn: Prifysgol Caerhirfryn. <http://wp.lancs.ac.uk/recurrent-care/publications/>

Bedston, S., Philip, G., Youansamouth, L., Clifton, J., Broadhurst, K., Brandon, M., & Hu, Y. (2019). Linked lives: Gender, family relations and recurrent care proceedings in England. *Children and Youth Services Review*. <https://doi.org/10.1016/J.CHILDYOUTH.2019.104392>

3. Canfyddiadau allweddol


At ddibenion yr adroddiad cryno hwn, rydym wedi crynhoi ein canfyddiadau i roi sylw i'r pum cwestiwn canlynol:

- Beth yw graddfa a phatrwm ymddangosiadau mynych mamau biolegol yng Nghymru?
- Beth yw proffil oedran mamau?
- Beth yw proffil oedran plant mewn achosion mynych?
- Beth yw'r deilliannau cyfreithiol i blant ar ddiwedd achosion, ac a yw hyn yn gysylltiedig â risg ailddigwydd?
- A allwn ni weld amrywiant rhwng ardaloedd llysoedd Barnwr Teulu Dynodedig (DFJ) yng Nghymru?

3.1 Beth yw graddfa a phatrwm y problem?

Gan ddefnyddio dulliau dadansoddi goroesol, roedd un **o bob pedair mam** (25%) a gofnododd episod mynegai o achos gofal yng Nghymru (rhwng 2011 a 2019) yn wynebu risg **episod a ailadroddir** o fewn wyth mlynedd. Felly, mae ailddigwydd yn broblem gweddol fawr yng Nghymru, gyda graddfa sy'n debyg iawn i honno a gyfrifwyd yn flaenorol ar gyfer Lloegr (Broadhurst et al., 2015).¹³

Ffigur 2: Tebygolrwydd achosion gofal mynych



¹³ ibid. Amcangyfrifodd yr awduron y byddai un o bob pedair mam yn Lloegr yn dychwelyd o fewn cyfnod saith mlynedd.

Bylchau rhwng achosion gofal mynych

Roedd y rhan fwyaf o episodau a ailadroddwyd yn digwydd **o fewn y tair blynedd gyntaf** i'r episod mynegai. Os nad oedd mamau wedi dychwelyd i'r llys o fewn tair blynedd, roedd y risg o ddychwelyd yn lleihau'n sylweddol.

Roedd y bwch canolrifol rhwng dechrau'r episod mynegai a dechrau'r episod cyntaf a ailadroddwyd yn fyr, sef 17 mis (neu 75 wythnos). **Roedd 22% o episodau yn gorgyffwrdd.** Pan fydd achosion gofal yn gorgyffwrdd, mae set newydd o achosion yn dechrau cyn bod yr achosion mynegai wedi dod i ben, gan olygu bod rhai menywod yn wynebu achosion cyfreithiol parhaus.

Roedd y bwch canolrifol rhwng dechrau'r episod cyntaf a ailadroddwyd a dechrau'r **ail episod a ailadroddwyd** yn fyr eto, sef 69 wythnos (16 mis). Roedd 13% o'r ail episodau a ailadroddwyd yn gorgyffwrdd â'r episodau cyntaf a ailadroddwyd (h.y. roedd yr ail episod a ailadroddwyd yn dechrau cyn i'r episod cyntaf a ailadroddwyd ddod i ben).

I famau biolegol sydd wedi cael plant wedi'u tynnu o'u gofal, gallai'r bwch rhwng un set o achosion gofal a'r nesaf fod yn ffenestr hollbwysig i ymadfer. Fodd bynnag, nid yw'r bylchau byr y gwelsom ni (yn dilyn yr episod mynegai a'r episod cyntaf a ailadroddwyd) yn cyd-fynd â'r hyn a wyddys am fframiau amser realistig ar gyfer ymadfer o broblemau fel iechyd meddwl neu gaethiwed (Sidebotham a Heron, 2006¹⁴; Brandon et al., 2008¹⁵; Bockting et al., 2015) - problemau sy'n gyffredin ym mywydau menywod y mae eu plant yn cael eu tynnu oddi wrthynt trwy orchymyn llys.¹⁶

3.2. Beth yw proffil oedran mamau pan fyddant yn cael eu plentyn cyntaf?

Fe wnaethom gasglu oedran y mamau pan oeddent yn cael eu plentyn cyntaf yn ôl oedran y plentyn hynaf yn eu hepisod mynegai.¹⁷ Mae Ffigur 3 yn dangos bod 41% o'r mamau mewn achosion gofal o dan 21 oed pan gawsant eu plentyn cyntaf – roedd 14% dan 18 oed, ac felly'n cael eu hystyried yn blant yn gyfreithlon.


¹⁴ Sidebotham, P. a Heron, J. (2006) *Child maltreatment in the "children of the nineties": a cohort study of risk factors*. Child Abuse and Neglect, Cyfrol 30 (Rhif 5). tud. 497- 522. doi:[10.1016/j.chiabu.2005.11.005](https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2005.11.005)

¹⁵ Brandon M., Belderson P., Warren C., Howe D., Gardner, R., Dodsworth, J. Black J. (2008) *Analysing Child Deaths and Serious Injury through Abuse and Neglect: What Can We Learn? A Biennial Analysis of Serious Case Reviews 2003–2005*, Llundain, Yr Adran Addysg, ar gael ar-lein at <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/https://www.education.gov.uk/publications/eorder/ingdownload/dcsf-rr023.pdf>

¹⁶ Bockting C. L. Hollon S. D. Jarrett R. B. Kuyken W. a Dobson K. (2015) 'A lifetime approach to major depressive disorder: The contributions of psychological interventions in preventing relapse and recurrence', *Clinical Psychology Review*. [10.1016/j.cpr.2015.02.003](https://doi.org/10.1016/j.cpr.2015.02.003).


¹⁷ Gallai fod plant hŷn gan rai mamau nad oeddent wedi bod yn rhan o achosion gofal neu a oedd wedi ymddangos mewn achosion cyn 2011, sef y flwyddyn y mae cofnodion electronig dibynadwy Cafcass Cymru yn dyddio'n ôl iddi.

Ffigur 3: Oedran mamau yn cael eu plentyn cyntaf



Roedd menywod a oedd yn cael eu plentyn cyntaf mewn oedran iau yn wynebu risg uwch o ailymddangos mewn episod pellach o achosion gofal (ffigur 4). Mae'r tebygolrwydd o ailddigwydd yn codi i ryw 32% ar gyfer mamau dan 21 oed - mae bron i un o bob tair o'r menywod iau hyn yn debygol o ailymddangos mewn set ddilynol achosion o fewn wyth mlynedd. Mewn cyferbyniad, mae'r tebygolrwydd o ailddigwydd oddeutu 14% ar gyfer y grŵp 31 i 35 oed, a dim ond 7% ar gyfer y rhai 36 oed neu hŷn.

Ffigur 4: Tebygolrwydd ailddigwydd yn ôl oedran y fam pan fydd yn cael ei phlentyn cyntaf




3.3 Beth yw proffil oedran plant mewn achosion mynych?

Mae'n bwysig nodi y gall achosion gofal mynych ymwneud â phlant sydd wedi ymddangos yn flaenorol mewn set gynharach o achosion. Yn ein gwaith cynharach, cyfeiriom at y plant hyn fel 'plant sy'n ymddangos yn fynych' ['recurrent children'] – mae'r un plant yn ymddangos mewn cyfran fach o achosion yn unig. Yn ein carfan o Gymru, roedd plant sy'n ymddangos yn fynych dim ond mewn 7% o'r plant yn yr episod cyntaf a ailadroddwyd, ac yn 8% yn yr ail.¹⁸ Mae'r gyfran fwyaf o bell ffordd felly o blant sy'n ymddangos mewn achosion gofal mynych yng Nghymru yn frodyr a chwiorydd a anwyd ar ôl i frawd neu chwaer hŷn gael eu tynnu oddi wrth eu rhieni nad yw'r llys wedi'u gweld o'r blaen.

Yn gyson â chanfyddiadau yn Lloegr, fe wnaeth nifer y plant ifanc iawn a oedd yn destun achosion godi'n sylweddol yn yr episodau cyntaf a'r ail episodau a ailadroddwyd. Mewn **61% o episodau cyntaf a ailadroddwyd**, cychwynnwyd achosion gofal ar gyfer babanod llai nag un mis oed. Mae hyn yn cyferbynnu â dim ond 19% yn yr episod mynegai. Roedd babanod tri mis oed neu iau yn gwneud **69%** o'r episodau cyntaf a ailadroddwyd. Eto, mae'r patrwm hyn yn hynod debyg i hynny a welwyd yn Lloegr (Broadhurst et al., 2015).¹⁹ Anaml y gwelir plant hŷn mewn achosion gofal mynych.

Ffigur 5: Oedran y plentyn ieuengaf ar ddechrau achos gofal



Rydym wedi dweud yn flaenorol ei bod yn ymddangos bod awdurdodau lleol a'r llysoedd yn cymryd camau llawer mwy rhagataliol yn gynnar ym mywyd baban lle mae'r llysoedd eisoes yn adnabod mam. Rydym wedi adrodd hefyd am y nifer gynyddol o fabanod newydd-anedig mewn achosion gofal yng Nghymru.²⁰ Gan roi'r arsylwadau hyn at ei gilydd, mae achosion a

¹⁸ Plant yw'r rhain y disgwyliwn mai plant ydynt sydd wedi dychwelyd adref neu wedi'u lleoli gyda pherthynas, ond mae'r lleoliad wedi chwalu ac felly mae achosion newydd wedi'u cychwyn.

¹⁹ *ibid.* Defnyddiodd yr awduron yr un arsylwadau ynglŷn â babanod mewn achosion gofal yn Lloegr. Mewn episod cyntaf a ailadroddwyd, roedd dros 70% o dan un oed, ac roedd bron i 60% yn llai nag un mis oed.


²⁰ Alrouh, B., Broadhurst, K., Cusworth, L., Griffiths, L., Johnson, R., Akbari, A., a Ford, D. (2019) *Born into care: newborn babies and infants in care proceedings in Wales*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. Ar gael yn <https://www.cjf-lancaster.org.uk/news/bornintocarewales>

ailadroddir yn fater cymdeithasol yng Nghymru, sy'n ymwneud yn bennaf â mamau iau a'r plant ieuengaf un yn y system cyfiawnder teuluol.

3.4 Beth yw'r deilliannau cyfreithiol i blant ac a yw hyn yn gysylltiedig â risg ailddigwydd?

O Ffigur 7 isod, gallwn weld bod **cyfran uwch o fenywod sydd wedi colli un neu fwy o blant i fabwysiadu** yn yr episod cyntaf a ailadroddwyd nag yn eu hepisod mynegai (mynegai: 19%; episod cyntaf a ailadroddwyd: 25%). O ran y deilliannau cyfreithiol i blant, unwaith eto mae'r duedd yn un fath ag yn Lloegr (Broadhurst et al., 2015).²¹

Ffigur 6: Deilliannau cyfreithiol ar ddiwedd achosion gofal



Cafodd llai o blant ar gyfartaledd eu lleoli'n gyfreithiol gydag aelodau'r teulu ar ddiwedd achosion yn yr episod cyntaf a ailadroddwyd nag adeg ymddangosiad mynegai y fam.


Mae'r darlun ar gyfer yr holl ddeilliannau cyfreithiol yn parhau'n debyg iawn rhwng y set gyntaf a'r set mynegai o achosion. Felly gallem, yn betrus, ddod i'r casgliad mewn achosion mynych bod mwy o fenywod yn debygol o weld eu plant yn cael eu mabwysiadu, yn hytrach na gweld plant yn cael eu lleoli gyda theulu a ffrindiau (ymhellach na'u hymddangosiad mynegai).

Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd wedi archwilio'r berthynas rhwng deilliannau cyfreithiol ac ailddigwydd. O Ffigur 8 isod, mae'n bosibl gweld, os yw plentyn yn dychwelyd at ei rieni neu'n aros gyda'i rieni ar ddiwedd achos, mae'r tebygolrwydd o ailadrodd (gan y fam) yn lleihau. I'r gwrthwyneb, mae mabwysiadu yn gysylltiedig â'r gyfradd uchaf o ailddigwydd. Mae'r ddau ganfyddiad hwn yn gyson ag arsylwadau yr adroddwyd amdanynt mewn gwaith

²¹ Ibid. Yn gyffredinol, mae nifer y plant sydd wedi'u gosod ar gyfer eu mabwysiadu yng Nghymru yn is nag yn Lloegr, yn yr episodau mynegai a'r episodau cyntaf a ailadroddir.

cynharach ar gyfer Lloegr, a'r UD (Grant et al., 2011).²² Sylwodd Therese Grant a'i chydweithwyr pan oedd mamau ag anhwylderau camddefnyddio sylweddol yn cadw plentyn yn eu gofal, roedd y risg o ail feichiogi yn gyflym yn lleihau. Roedd yr ymchwilyr yn dadlau bod tynnu plentyn oddi wrth ei rieni yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael "baban yn ei le", gan fod menywod, yn ymwybodol neu'n anymwybodol, yn ymateb i'w colled.

Ffigur 7: Tebygolrwydd o ailddigwydd yn ôl deiliant cyfreithiol



Mae dehongli data gorchmynion cyfreithiol ar gyfer plant yng Nghymru yn gymhleth oherwydd y tueddiadau sy'n newid yn y defnydd o orchmynion gofal. Yn ein gwaith cynharach, pennom ei bod yn ymddangos bod niferoedd cynyddol o fabanod yn destun gorchmynion gofal ar ddiwedd achosion (Alrouh et al, 2019²³). Y dystiolaeth anecdotaidd yw bod defnydd cynyddol yn cael ei wneud o orchmynion gofal ar gyfer babanod yn cael eu lleoli gyda rhieni gartref neu gyda gofalywyr sy'n berthynas. Felly, mae'r arsylwadau a wnaethom yn yr adran hon yn mynnu profion pellach. Er mwyn cael darlun cadarnach o'r berthynas rhwng deilliannau gorchmynion cyfreithiol a thebygolrwydd ailddigwydd, mae angen gwneud gwaith pellach i gysylltu cofnodion llysoedd teulu plant â'u data lleoli.

3.5 A allwn ni weld amrywiant rhwng ardaloedd Barnwr Teulu Dynodedig (DFJ) yng Nghymru?

Cafodd oddeutu hanner yr holl episodau (mynegai, cyntaf ac ail episodau a ailadroddwyd) eu cychwyn yn ardal llys barnwr teulu dynodedig (DFJ) yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru, ac yna roedd rhyw draean o'r episodau yn Abertawe a De Orllewin Cymru. Yng Ngogledd Cymru y ceir y cyfraniad lleiaf o ran nifer yr achosion (18% o episodau mynegai,

²² Grant, T., Huggins, J., Graham, J. C., Ernst, C., Whitney, N., a Wilson, D. (2011) Maternal substance abuse and disrupted parenting: distinguishing mothers who keep their children from those who do not, *Children and Youth Services Review*, 33(11), tud.2176–85.

²³ *ibid.*

18% o episodau cyntaf a ailadroddwyd ac 14% o ail episodau a ailadroddwyd). Bydd maint y boblogaeth leol yn effeithio ar nifer yr achosion a welir gan y llysoedd.

Fodd bynnag, o ran tebygolrwydd ailddigwydd, mae'r ardaloedd DFJ yn dangos tystiolaeth o ddarlun tebyg iawn. Er gwaetha'r gwahaniaethau rhwng y tair ardal DFJ o ran nifer cyffredinol y mamau mewn achosion a.31, nid oedd gwahaniaethau mewn tebygolrwydd ailddigwydd yn arwyddocaol yn ystadegol. Mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach i gysylltu cyfraddau ailddigwydd gyda data cymdeithasol-demograffig, fel amddifadedd, iechyd, addysg, a chyflogaeth, i greu cipolygon mwy cyfoethog ar batrymau ailddigwydd.

4. Goblygiadau polisi ac ymarfer

Mae'r canfyddiadau yr adroddwn amdanynt yn y dadansoddiad cyntaf hwn o achosion o ailddigwydd yng Nghymru, yn seiliedig ar achosion 4,345 o famau (ac o'r rheiny roedd 641 mewn achosion mynych), yn hynod debyg i'r canfyddiadau yr adroddwyd amdanynt ar gyfer Lloegr yn 2015 (Broadhurst et al., 2015).²⁴ Mae'n amlwg iawn bod **cyfran gweddol fawr o famau â risg ailddigwydd yng Nghymru (un o bob pedair) pan edrychwn ar batrymau dros gyfnod o wyth mlynedd**. Mae'r risg hon yn uwch ar gyfer mamau iau.

Mae'r bylchau byr rhwng episodau o achosion gofal, neu orgyffwrdd rhyngddynt, yn dangos y graddau y mae **bywydau menywod ynghlwm wrth achosion llys teulu parhaus, neu agos at ei gilydd**. Fel y nodom yn Lloegr, mae'r llysoedd ac awdurdodau lleol yn debygol o weithredu yn gynnar ym mywyd baban os yw mam eisoes wedi ymddangos fel ymatebydd mewn achos gofal. Mae'r niferoedd cynyddol o fabanod sy'n cael eu geni i mewn i ofal yn bryder arbennig i Gymru ac nid oes fawr o obaith i hyn newid, oni bai y gwneir mwy i atal achosion gofal mynych.

Y **mamau ieuengaf** yn ein carfan sy'n dangos y tebygolrwydd mwyaf o achosion yn ailddigwydd. Mae nifer fach, ond nifer sy'n peri pryder, o famau sy'n iau na 18 oed pan fyddant yn ymddangos yn eu set gyntaf o achosion gofal. Mae'n rhaid ystyried **siwrneiau datblygiadol oedolion** o ran gwasanaethau ataliol a'r cymorth sydd ei angen ar gyfer rhieni ifanc er mwyn eu galluogi i gyfrannu'n ystyrion mewn achosion gofal. Ar hyn o bryd mae set ddata Cafcass Cymru yn darparu wyth mlynedd o ddata gwerthfawr o ansawdd uchel. Dros amser, bydd modd cael golwg hwy ar drywyddau mamau (a thadau) trwy achosion gofal, wedi'u mapio yn erbyn cwrs bywyd yr oedolyn. Mae'n ymddangos bod mabwysiadu yn cynyddu risg menywod o achosion yn ailddigwydd – sy'n gyson â'r llenyddiaeth genedlaethol sy'n awgrymu bod menywod am gael baban yn lle baban a gollwyd. Mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach i gysylltu cyfraddau ailddigwydd gyda data cymdeithasol-demograffig, fel amddifadedd, iechyd, addysg, a chyflogaeth, i greu cipolygon mwy cyfoethog ar batrymau a risg ailddigwydd.

Mae'r rhaglen Reflect, a gafodd ei harloesi'n wreiddiol gan Barnardos yng Nghasnewydd, yn cael ei datblygu o hyd, a'r uchelgais yw sicrhau bod y rhaglen hon yn cael ei chynnig gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. **Mae'r dystiolaeth newydd a gyflwynwn yn cefnogi buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y fenter hon**. Ni welsom dystiolaeth o amrywiant

²⁴ ibid.

ewn cyfraddau ailddigwydd yn ôl ardaloedd llys, er y bydd angen i ddarpariaeth gwasanaethau fod yn seiliedig ar faint ac anghenion poblogaethau lleol, gyda rhaglenni a rennir o bosibl mewn ardaloedd lle ceir niferoedd isel o deuluoedd yn mynd i mewn i achosion gofal.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth bellach i gefnogi'r negeseuon a amlinellwyd yn y cyhoeddiad diweddar gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a oedd yn dadlau dros fesurau ataliol pellach i leihau'r angen am achosion gofal ac achosion gofal mynych.²⁵ Bydd cynyddu buddsoddiad mewn mentrau fel Reflect yn cyflawni buddion nid yn unig i'r system cyfiawnder teuluol, ond dros amser, gall hefyd leihau'r galw ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill. I deuluoedd, gan gynnwys mamau, tadau, brodyr a chwirydd a rhwydweithiau teulu estynedig, mae gwasanaethau fel Reflect yn dod â gobaith yn nhermau newid, ond yn dod â help hefyd o ran datrys colled.

Ar hyn o bryd nid oes mandad statudol mewn perthynas â darparu cymorth adsefydlu wedi'i deilwra i rieni ar ôl i blentyn gael ei dynnu oddi wrthynt, a gallai hyn fygwth cynaliadwyedd y rhaglen Reflect, er ei bod yn cael ei chefnogi gan y llywodraeth ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad cyntaf hwn ar gyfer Cymru yn darparu'r **meincnodau achosion mynych** cyntaf i allu mesur y cynnydd i leihau ymddangosiadau mynych menywod mewn achosion gofal. Yng nghyd-destun pwysau parhaus ar i lawr ar gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus, mae'r angen am ymagwedd wybodus at fuddsoddi yn bwysicach nag erioed.

Cyhoeddwyd ein dadansoddiad cyntaf o achosion gofal mynych yn 2015 ar gyfer Lloegr. Bryd hynny, nid oedd modd ymgymryd â gwaith tebyg yng Nghymru ar sail data lefel poblogaeth ar wasanaethau llawn, gan nad oedd y system rheoli achosion electronig wedi aeddfedu digon – roedd cofnodion yn dyddio'n ôl i 2011 yn unig. Fodd bynnag, mae'r adroddiad cyntaf hwn ar gyfer Cymru gan ddefnyddio cofnodion dienw Cafcass Cymru yn dangos potensial y data gweinyddol hwn. Mae amgylchedd diogel Banc Data SAIL, ynghyd â buddsoddiad gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a Llywodraeth Cymru, yn addawol o ran nodi rhagfynegyddion ailddigwydd yn gynharach – a allai osgoi poen achosion a ailadroddir o dynnu plant oddi wrth eu rheini ar gyfer rhieni, plant ac aelodau ehangach y teulu.

²⁵ Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019), *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*: Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf>

